CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach: 6 Rhagfyr 2022

Crynodeb o gyfarfod y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach a gynhaliwyd yn bersonol ar 6 Rhagfyr 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 21 Rhagfyr 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 21 Rhagfyr 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-6-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Croeso a chyflwyniadau

Y diweddaraf am drafodaethau cytundebau masnach Llywodraeth y DU

Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel

Trafodaeth ford gron ynghylch y Swistir a Thwrci

Sylwadau i gloi



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-6-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

## Cadeirydd y cyfarfod

- Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS

## Aelodau a rhanddeiliaid y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach

- Andy Richardson (Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru)
- Catherine Smith (Hybu Cig Cymru)
- Debbie Laubach (MediWales)
- Henry Clarke (RDP Law)
- Leighton Jenkins (CBI)
- Louisa Petchey (Iechyd Cyhoeddus Cymru)
- Llyr ap Gareth (Ffederasiwn Busnesau Bach)
- Madeleine Pinder (Aerospace Wales)
- Paul Brooks (Y Sefydliad Allforio)
- Paul Slevin (Siambrau Cymru)
- Richard Rumbelow (Make UK)

# Croeso a chyflwyniadau

Agorodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi y cyfarfod gan ddiolch i aelodau'r grŵp ac amlinellu eu rôl wrth helpu i lunio polisi masnach Llywodraeth Cymru gan roi mewnbwn arbenigol ar sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a lleihau'r bygythiadau y gallai cytundebau masnach rydd eu cynnig i Gymru ac economi Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-6-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Amlinellodd y Gweinidog yr achos dros fasnach ryngwladol a chydnabod y manteision y gall cytundebau masnach rydd newydd eu cynnig i Gymru. Nododd hefyd ei bod yn hanfodol sicrhau bod Llywodraeth y DU yn deall na ddylai cytundebau masnach rydd newydd danseilio gallu Llywodraeth Cymru i ddilyn ei huchelgeisiau ei hun na rheoleiddio'n ddomestig.

Amlinellodd y Gweinidog fod yn rhaid i unrhyw drafodaethau masnach â gweddill y byd fod yn gwbl gydnaws â'r cytundeb sydd gennym ar hyn o bryd gyda'r UE ac na ddylent niweidio perthynas fasnachu'r DU/UE.

Esboniodd y Gweinidog ein bod yn ystyried polisi masnach yng Nghymru o bersbectif Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hytrach na mewn termau economaidd yn unig, a bod cytundebau masnach yn creu goblygiadau rhyngwladol sy'n uno cenedlaethau'r dyfodol.

## Y diweddaraf am drafodaethau cytundebau masnach Llywodraeth y DU

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach Llywodraeth Cymru drosolwg o'r gwaith hyd yma ynghylch cytundebau masnach rydd Llywodraeth y DU, gan gynnwys y trafodaethau sydd wedi dod i ben, y rhai hynny sydd wedi dechrau a'r rhai sydd ar fin dechrau. Pwysleisiwyd bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac yn cyfrannu at drafodaethau ar bolisi masnach ryngwladol a thrafodaethau masnach.

## Trafodaeth ford gron ar Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP)

Rhoddodd Pennaeth Polisi Masnach Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-6-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ymaelodaeth Llywodraeth y DU â bloc masnachu'r Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel. Trafodwyd y canlynol:

- Trefniadau rheolau tarddiad ac a yw busnesau y DU yn debygol o elwa arnynt ai peidio.
- Yr effeithiau posibl yn sgil gwledydd eraill yn ymuno â'r Bartneriaeth yn y dyfodol.
- Y goblygiadau posibl yn sgil y DU yn ymwahanu o reoliadau'r UE trwy ymuno â'r Bartneriaeth, gan ystyried mai'r UE yw marchnad allforio fwyaf Cymru.
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llunio asesiad effaith ar iechyd ar gyfer Cymru pe bai'r DU yn ymuno â'r Bartneriaeth.
- Y gwahanol safonau (ee hawliau llafur) ledled aelod-wladwriaethau'r Bartneriaeth a'u heffeithiau posibl ar fusnesau Cymru.

# Trafodaeth ford gron ynghylch y Swistir a Thwrci

## Y Swistir

Rhoddodd swyddog o Lywodraeth Cymru ddiweddariad ar drafodaethau masnach Llywodraeth y DU â'r Swistir. Trafodwyd y canlynol:

- Y Swistir yn bartner masnach y gellir ymddiried ynddo a sut y dylai fod yn farchnad o flaenoriaeth ar gyfer y DU, yn enwedig ar gyfer y sector gwasanaethau.
- Dylai Llywodraeth y DU anelu at gytundeb masnach uchelgeisiol gyda'r Swistir – dim ond nwyddau y mae'r trefniant presennol yn ei gynnwys felly mae'n bwysig bod y sectorau gwasanaethau yn cael eu cynnwys mewn cytundeb masnach gwell.
- Cyfleoedd i estyn allforio cig coch o Gymru i'r Swistir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-6-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Twrci

Rhoddodd swyddog o Lywodraeth Cymru ddiweddariad ar drafodaethau masnach Llywodraeth y DU â Thwrci. Trafodwyd y canlynol:

- Pwysigrwydd Twrci yn sylfaen fyd-eang ar gyfer cadwyni cyflenwi, yn enwedig yn y sector modurol.
- Pryderon ynghylch materion hawliau dynol yn Nhwrci, gan gynnwys hawliau llafur.

# Sylwadau i gloi

Daeth y Gweinidog â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i'r rhai a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau eang i'r trafodaethau. Bydd y grŵp yn cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2023.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-6-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.